## Canllawiau’r Weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd.

1. Mae'r Cod Ymddygiad (y Cod) yn nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau o'r Senedd (Aelodau). Mae’n nodi'r egwyddorion a'r rheolau y mae'n ofynnol i’r Aelodau eu dilyn. Os bernir nad yw Aelod wedi bodloni’r safonau hyn, gellir gwneud cwyn i’r Comisiynydd Safonau annibynnol (y Comisiynydd). Mae Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 (y Mesur) yn nodi seiliau eraill ar gyfer gwneud cwyn i’r Comisiynydd.[1].

---

[1] 6 Swyddogaethau'r Comisiynydd

(1)Swyddogaethau'r Comisiynydd yw–

(a)derbyn unrhyw gŵyn bod ymddygiad Aelod o’r Senedd, ar adeg berthnasol, wedi methu â chydymffurfio ag un o ofynion darpariaeth berthnasol,

…………………..

(3)Ystyr "darpariaeth berthnasol" yw–

(a)unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â'r canlynol–

(i)cofrestru neu ddatgan buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill,

(ii)hysbysiadau gan Aelodau o’r Senedd ynglŷn â'u haelodaeth o gymdeithasau,

(iii)cofrestru neu hysbysu unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud ag Aelodau o’r Senedd neu â phersonau sy'n gysylltiedig ag Aelodau o’r Senedd.

(b)unrhyw benderfyniad gan y Senedd sy'n ymwneud â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill Aelodau o’r Senedd.

(c)unrhyw God Ymddygiad a gymeradwyir gan y Senedd sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau o’r Senedd.

(d)unrhyw benderfyniad gan y Senedd sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau o’r Senedd, ac

(e)unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir yn y Rheolau Sefydlog (neu mewn unrhyw god neu brotocol a wneir odanynt) yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf.

………………..

2. Mae’r Weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o’r Senedd (y weithdrefn) yn nodi’r broses ar gyfer ymdrin â chwynion o’r fath. Mae’n gymwys. fel y bo’n briodol, i:

   - bersonau sy'n gwneud cwynion;
   - Aelodau sy'n destun cwyn;
   - tystion mewn perthynas â chwyn;
   - unrhyw un sy'n helpu Aelod i wneud sylwadau;
   - unrhyw berson arall y gofynnir iddo roi gwybodaeth neu gymorth mewn perthynas ag ymchwiliad gan Gomisiynydd Safonau’r Senedd,
   - Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd wrth drafod adroddiad gan Gomisiynydd Safonau’r Senedd a chyflwyno adroddiad arno i’r Senedd.

3. Mae Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd (y Pwyllgor) wedi cyhoeddi’r canllawiau hyn i esbonio elfennau o’r weithdrefn a helpu i’w chymhwyso a chaiff, o bryd i’w gilydd, gyhoeddi canllawiau diwygiedig neu ragor o ganllawiau, fel y bo’n briodol yn ei farn ef.
4. Nid yw’r canllawiau hyn yn rhan o’r weithdrefn ond eu nod yw helpu’r Aelodau, ac aelodau o’r cyhoedd, i’w deall a’i dilyn. Fodd bynnag, caiff y Comisiynydd roi sylw i’r canllawiau hyn wrth ymchwilio i gŵyn a’i hystyried, ond ni chaniateir gwneud cwynion ar sail y canllawiau yn unig.
5. Nid yw’r canllawiau hyn yn ailadrodd y weithdrefn ond maent yn rhoi rhagor o wybodaeth am:
   - y cymorth sydd ar gael yn ystod y broses gwyno;
   - y meini prawf derbynioldeb ar gyfer cwynion, yn enwedig yr amserlen ar gyfer cwynion;
   - sut y caiff y Comisiynydd ymchwilio i gŵyn;

- yr hyn sy'n digwydd pan fydd y Comisiynydd wedi cwblhau ymchwiliad;
- proses y Pwyllgor, yn enwedig y cam sylwadau a'r cosbau sydd ar gael, a sut y caiff y Pwyllgor ddod i benderfyniad;
- yr hyn a fydd yn digwydd gyda'ch data.

## Y cymorth sydd ar gael ar gyfer y broses gwyno

7. Mae canllawiau a chymorth ar gael drwy gydol y broses i'r rhai sy'n gwneud cwyn ac i'r Aelodau sy’n destun cwyn.

8. Os ydych am wneud cwyn neu os mai chi yw’r Aelod sy’n destun cwyn, caiff swyddfa’r Comisiynydd roi cymorth i chi mewn perthynas â’r broses gwyno a’r hyn y mae angen i chi ei wneud, ond ni chaiff roi cyngor i chi o ran a ddylech wneud cwyn.

9. Os yw’r Comisiynydd wedi cyflwyno adroddiad i’r Pwyllgor, caiff y tîm Clercio roi cymorth mewn perthynas â cham nesaf y broses.

10. Mae cymorth penodol ar gael i’r rhai sy’n ystyried gwneud cwyn, neu sydd wedi gwneud un, ac i’r rhai sy’n destun cwyn o’r fath:
    - Cymorth wrth wneud cwyn
    - Cymorth pan fydd honiad wedi'i wneud yn eich erbyn

## Y meini prawf derbynioldeb

11. Ar ôl i gŵyn ddod i law, mae'r Comisiynydd yn asesu a yw'n dderbyniol. Er mwyn bod yn dderbyniol, mae'n rhaid i'r gŵyn:

- **fod yn ysgrifenedig** - gall hyn fod ar ffurf llythyr neu e-bost (ond, er enghraifft, ni chaniateir gwneud cwyn ar lafar drwy ffonio swyddfa'r Comisiynydd). Os bydd angen help i ysgrifennu eich cwyn, bydd swyddfa'r Comisiynydd yn darparu hyn;

- **nodi enw'r achwynydd** - mae'n rhaid i enw'r person sy'n cwyno gael ei gynnwys yn yr wybodaeth a rennir â'r Comisiynydd. Fel arfer, datgelir eich enw chi a chyfeiriad yr achwynydd i'r Aelod. Os oes rheswm dros beidio â gwneud hyn, mae'n rhaid i chi ei roi i'r Comisiynydd. Mae'n bwysig nodi na ellir sicrhau anhysbysrwydd drwy gydol y broses os bydd y gŵyn yn mynd ymlaen i adroddiad terfynol gan y Pwyllgor. Dylid cyfeirio at hysbysiadau preifatrwydd priodol y Comisiynydd a'r Pwyllgor i gael rhagor o wybodaeth am sut y caiff data personol eu prosesu o dan y weithdrefn;

- **nodi cyfeiriad post neu e-bost yr achwynydd** (ac eithrio pan fo'r achwynydd yn Aelod presennol) - mae angen i'r Comisiynydd allu cysylltu ag achwynwyr i ymchwilio'n briodol i'r gŵyn ac, fel y cyfryw, mae angen cyfeiriad post neu e-bost;

- **ymwneud ag ymddygiad honedig Aelod a enwir** - mae'n rhaid i gŵyn ymwneud ag Aelod neu Aelodau adnabyddadwy; ni chaiff fod yn gŵyn gyffredinol am y Senedd neu ei Haelodau'n gyffredinol. Bydd cwyn am fwy nag un Aelod yn cael ei thrin fel cwynion ar wahân;

- **nodi'r gweithredoedd neu'r anweithredoedd** - yr hyn yr honnir y gwnaeth yr Aelod sy'n destun cwyn i dorri

darpariaeth yn y Cod neu ddarpariaeth berthnasol arall. Dylai'r gŵyn gyfeirio at y rhan o'r Cod neu’r ddarpariaeth berthnasol a dorrwyd gan weithredoedd yr Aelod;

- **cael ei hategu gan dystiolaeth ddigonol** – mewn perthynas â phob gweithred neu anweithred sy’n destun cwyn i fodloni’r Comisiynydd (i) ei bod yn bosibl bod yr ymddygiad sy’n destun cwyn wedi digwydd, ac (ii) os profir y gŵyn, y gallai fod yn gyfystyr â thorri’r Cod neu ddarpariaeth berthnasol. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw arian cyhoeddus yn cael ei wastraffu yn ymdrin â chwynion sydd heb dystiolaeth yn sail iddynt;

Os ydych yn gwneud cwyn, a bod rhywfaint o’ch tystiolaeth yng nghofnod y trafodion, nid oes rhaid i chi gynnwys yr holl ddyfyniadau o’r cofnod, ond gallwch gynnwys y rhifau paragraff perthnasol ohono. Gellir cyrchu cofnod y trafodion yma. (paragraff 4.5);

Os ydych yn cwyno am faterion sydd wedi’u hadrodd yn y wasg, bydd angen i’r Comisiynydd fod yn fodlon bod yr adroddiad yn ddigon cywir ac yn cynrychioli’r ffeithiau’n ddibynadwy (ac nad yw wedi’i or-ddweud neu wedi’i ffugio). (paragraff 4.6);

- gael ei gwneud o fewn chwe mis i'r dyddiad pan ellid, yn rhesymol, fod wedi gwneud cwyn am yr ymddygiad honedig – oni bai bod y Comisiynydd yn fodlon bod rheswm da dros yr oedi.

### *Beth yw ystyr rheswm da?*

- Dylid gwneud cwynion cyn gynted â phosibl tra bo cof yr achwynydd a'r Aelod o'r hyn a ddigwyddodd yn glir o hyd. Os byddwch yn gwneud cwyn fwy na chwe mis ar ôl y dyddiad y gellid, yn rhesymol, fod wedi’i gwneud, bydd yn rhaid i chi

gael ‘rheswm da’ dros yr oedi, neu ni fydd y Comisiynydd yn ei hystyried.

- Mae ‘rheswm da’ yn cynnwys ystod eang o amgylchiadau pan na ellid, yn rhesymol, fod wedi gwneud cwyn yn gynharach, er enghraifft:
- oherwydd salwch;
- roedd ymateb i amgylchiadau’r gŵyn yn atal cymryd rhan yn y broses gwyno’n gynharach (cydnabyddir y gallai’r ystyriaeth hon fod yn arbennig o berthnasol mewn cwynion am achosion honedig o fwlio, aflonyddu, bygwth neu ymddygiad digroeso arall); neu
- faterion teulu neu waith dybryd.
- Nid yw’r enghreifftiau hyn yn gynhwysfawr ac, os ydych yn meddwl bod rheswm da dros beidio â gwneud eich cwyn mewn pryd, dylech roi’r manylion llawn i’r Comisiynydd wrth wneud eich cwyn.

*Beth fydd yn digwydd os na fydd eich cwyn yn dderbyniol?*

- Mae paragraff 4.4 yn nodi, os nad yw cwyn yn dderbyniol, y bydd y Comisiynydd yn ysgrifennu at yr achwynydd yn nodi’r rheswm dros y penderfyniad gan gynnwys, pan fo’n bosibl, pa feini prawf yn rhan 4.2 o’r weithdrefn sydd heb eu bodloni a pha wybodaeth arall y byddai ei hangen i wneud y gŵyn yn dderbyniol. Hefyd, bydd y Comisiynydd yn nodi dyddiad ar gyfer rhoi’r wybodaeth ac yn helpu i nodi meysydd perthnasol o’r Cod.

- Os na fyddwch yn rhoi'r holl wybodaeth ofynnol erbyn y dyddiad a nodir, ni fydd eich cwyn yn dderbyniol ac ni chaiff ei hystyried ymhellach.

- Mae penderfyniad y Comisiynydd ar dderbynioldeb cwyn yn derfynol a dim ond drwy adolygiad barnwrol y caniateir ei herio.

## Cwynion - dod ag ystyriaeth i ben cyn adroddiad terfynol

13. Mae paragraff 5.1 yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff y Comisiynydd ystyried ei bod yn briodol peidio â pharhau i ymchwilio i gŵyn, sef:

- **nid yw'n bodloni'r gofynion o dan is-baragraff 4.2 (meini prawf derbynioldeb) mwyach** i'r gŵyn barhau – Wedi ystyried y mater ymhellach, daw'n amlwg i'r Comisiynydd nad yw'r gŵyn yn dderbyniol;
- mae'r gŵyn yn **ailadrodd rhannau sylweddol o honiad y mae'r Comisiynydd eisoes wedi'i ystyried** ac ni ddarparwyd tystiolaeth ychwanegol sylweddol – Mae'r Comisiynydd wedi ystyried y mater o'r blaen ac nid yw'r gŵyn yn rhoi gwybodaeth na thystiolaeth newydd;
- nid yw'r achwynydd am barhau â'r gŵyn, mwyach;
- **nid yw'r sawl sy'n destun yr ymddygiad honedig, pan fo'n berson gwahanol i'r achwynydd, am i'r gŵyn barhau** – Os yw'r gŵyn wedi'i gwneud am ymddygiad gan Aelod tuag at rywun heblaw'r achwynydd, mae gan y person hwn yr hawl i ddweud nad yw am i'r gŵyn barhau;
- **nid yw'r ymddygiad honedig yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ei hystyried ymhellach**, ac mae'r Aelod sy'n destun cwyn wedi cyfaddef ac ymddiheuro ac, i'r graddau y mae'n ymarferol, mae wedi gwneud yn iawn am yr hyn a wnaeth i dorri'r Cod. Os yw'r Comisiynydd o'r farn bod yr ymddygiad a dorrodd y Cod yn fân ei natur a bod yr Aelod wedi cymryd camau i gywiro'r gwall ac ymddiheuro (er enghraifft diweddaru'r gofrestr buddiannau pan gafodd wybod y bu gwall), caiff y

Comisiynydd benderfynu terfynu'r ymchwiliad bryd hyn a pheidio â pharhau â chamau'r broses gwyno sy'n weddill;

- **nid yw'r achwynydd, heb esgus rhesymol, wedi cydweithredu â'r Comisiynydd** – Mae'n bwysig bod achwynwyr yn ymgysylltu'n llawn â'r Comisiynydd er mwyn symud cwyn yn ei blaen. Os nad oes llawer o ymgysylltiad, os o gwbl, ar ôl gwneud cwyn, heb esgus rhesymol, mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Comisiynydd i ymchwilio'n briodol. Pan fo hyn yn atal gallu'r Comisiynydd i ddod i gasgliad cadarn ar y dystiolaeth, gellir terfynu'r ymchwiliad bryd hyn; neu
- **nid yw er budd y cyhoedd bwrw ymlaen** ag ystyried y gŵyn ymhellach – Gall ystyriaethau amrywiol fod yn berthnasol yn hyn o beth gan gynnwys ystyriaethau gwerth am arian a natur y gŵyn, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

14. Mae paragraffau 5.2 – 5.5 yn nodi, pan fo'r Comisiynydd wedi gwneud argymhelliad i beidio â pharhau â chwyn (fel y nodir uchod), fod yn rhaid i'r Comisiynydd ysgrifennu at yr Achwynydd a'r Aelod sy'n destun cwyn yn nodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto, ynghyd â therfyn amser (nad yw'n llai na 14 diwrnod) ar gyfer gwneud sylwadau.

15. Yn yr hysbysiad ysgrifenedig hwn, bydd y Comisiynydd hefyd yn hysbysu'r achwynydd o'i hawl i roi hysbysiad ei fod yn anfodlon â'r penderfyniad, a nodi'r rheswm drosto. Yna, bydd y Pwyllgor yn trafod y sylwadau, a chaiff benderfynu bod y Comisiynydd naill ai'n gywir i beidio â pharhau i ystyried y gŵyn neu y dylai'r Comisiynydd barhau i ymchwilio yn unol â'r weithdrefn. Mae penderfyniad i gyfeirio cwyn yn ôl at y Comisiynydd yn weithred niwtral ac nid yw'n effeithio ar ganfyddiad terfynol y Comisiynydd.

## Sut y mae'r Comisiynydd yn cynnal ymchwiliadau

16. Mae paragraffau 6.1 i 6.4 yn nodi, os yw cwyn yn dderbyniol, y bydd y Comisiynydd yn symud i'r cam ymchwiliad ffurfiol. Dyma pan fo'r Comisiynydd yn cynnal ymchwiliad arall ac yn llunio adroddiad i'r Pwyllgor. Bydd yr achwynydd a'r Aelod sy'n destun cwyn yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig bod y cam ymchwiliad ffurfiol wedi dechrau.

17. Bydd y Comisiynydd yn ymchwilio i'r gŵyn ac yn cadarnhau ffeithiau mewn perthynas â hi. Mae nifer o ffyrdd y gellir gwneud hyn, gan gynnwys cyfweld â phobl a chynnal holiaduron. Mater i'r Comisiynydd yw penderfynu ar y dull mwyaf priodol o ymchwilio i bob cwyn. Wedi cadarnhau'r ffeithiau, bydd y Comisiynydd yn ffurfio barn o ran a dorrwyd y Cod neu ddarpariaeth berthnasol arall. (paragraff 6.3)

Darpariaethau i alw tystion a gofyn am ddogfennau o dan Fesur y Comisiynydd Safonau 2009 (y Mesur)

18. Mae adran 11 o'r Mesur yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un (sy'n ymwneud â chwyn) roi tystiolaeth wyneb yn wyneb, neu mewn dogfennau y mae'r Comisiynydd yn gofyn amdanynt.

19. Mae adran 12 o'r Mesur yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r Comisiynydd ei wneud wrth ddefnyddio'r pŵer hwn. Hefyd, mae paragraff 6.4 o'r weithdrefn yn nodi rhai gofynion ar y Comisiynydd wrth gynnal cyfweliad o dan adran 11.

20. Mae adran 13 o'r Mesur yn rhoi'r awdurdod i'r Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i dystiolaeth gael ei rhoi ar lw.

21. Os yw'r Comisiynydd wedi gwneud cais o dan yr adrannau hyn o'r Mesur, mae methiant i gydymffurfio'n drosedd a all arwain at ddirwy (heb fod yn fwy na lefel 5[2]) a/neu garcharu am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis.[3]

---

[2] Mae dirwy Lefel 5 yn ddiderfyn

[3] Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

## Adroddiad ymchwiliad i gŵyn

23. Mae paragraff 7 o'r weithdrefn yn ymdrin â sut y llunnir adroddiad y Comisiynydd a'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys ynddo. Mae'n nodi'r gofynion ar y Comisiynydd o ran rhannu gwybodaeth â'r achwynydd a'r Aelod sy'n destun cwyn, yn ogystal â'r hyn a ddylai fod yn yr adroddiad.

24. Cyn llunio adroddiad terfynol, bydd y Comisiynydd yn rhannu rhestr o'r ffeithiau a gadarnhawyd gan y Comisiynydd â'r achwynydd a'r Aelod sy'n destun y gŵyn. Bydd y ffeithiau hyn yn sail i unrhyw adroddiad a chasgliad y daw'r Comisiynydd iddo ynghylch y gŵyn. Bydd gan yr achwynydd a'r Aelod sy'n destun cwyn o leiaf saith niwrnod i ystyried y ffeithiau a gwneud sylwadau arnynt.

25. Gall sylwadau o'r fath gynnwys cywiriadau neu ymholiadau am gywirdeb ffeithiol, neu feysydd tystiolaeth y mae'n ymddangos nad ydynt wedi'u hystyried. Mae'n bwysig ymgysylltu â'r Comisiynydd bryd hyn gan mai dyma'r sail ffeithiol i ddrafftio'r adroddiad. Os na fydd y Comisiynydd yn cael sylwadau, bernir y cytunir ar y ffeithiau.

### *Rhoi gwybod am achos mân ei natur o dorri'r Cod*

- Yn ystod ymchwiliad, caiff y Comisiynydd gadarnhau bod y Cod wedi'i dorri, ond bod hwnnw'n achos mân ei natur. Mewn achosion o'r fath, os nad oes anghydfod ynghylch y ffeithiau a bod y Comisiynydd yn fodlon bod testun y gŵyn wedi'i ddatrys, caiff y Comisiynydd argymell nad yw'r ymchwiliad yn parhau. Bydd y Pwyllgor yn adolygu rhesymau'r Comisiynydd ac yn gwneud penderfyniad. Os yw'n cytuno ag argymhelliad y Comisiynydd, bydd y Comisiynydd yn hysbysu'r achwynydd a'r Aelod sy'n destun cwyn na fydd rhagor o gamau. Ni fydd y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad ffurfiol, ond caiff adrodd ar faterion o egwyddor gyffredinol. Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi rhestr

ddienw o gwynion o’r fath sydd wedi’u datrys ar ei dudalen we.

## Cwynion - Trafodaeth gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Pan fydd y Comisiynydd wedi cwblhau adroddiad ar gŵyn, caiff ei anfon at y Pwyllgor. Ar ôl cael adroddiad, bydd y Pwyllgor yn:

- hysbysu'r achwynydd bod yr adroddiad wedi dod i law a rhoi copi iddo, esbonio beth fydd yn digwydd nesaf a sut y caiff data personol eu prosesu (naill ai'n uniongyrchol neu drwy swyddfa'r Comisiynydd, gan ddibynnu a yw'r achwynydd am ymdrin â'r Pwyllgor yn uniongyrchol);

- hysbysu'r Aelod dan sylw bod yr adroddiad wedi dod i law a rhoi copi iddo, esbonio beth fydd yn digwydd nesaf a sut y caiff data personol eu prosesu. I'r Aelod, mae hyn yn cynnwys y cyfle i wneud sylwadau i'r Pwyllgor, naill ai'n ysgrifenedig neu wyneb yn wyneb, o fewn amserlen benodedig.

26. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat i drafod cwynion, oni bai bod y Pwyllgor yn cytuno i gyfarfod yn gyhoeddus. Bydd penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud o gofio budd y cyhoedd. Ni fydd y Comisiynydd yn mynd i gyfarfodydd o'r fath oni bai bod y Pwyllgor yn ei wahodd.

### *Beth fydd yn digwydd yn y cam sylwadau?*

27. Os bydd Aelod yn gofyn am fod yn bresennol, neu os bydd y Pwyllgor yn gofyn i Aelod fod yn bresennol, y cam sylwadau yw hyn. Caiff Aelod ddewis cael cwmni mewn sesiwn o'r fath, ond mae'n rhaid iddo ddweud wrth y Pwyllgor pwy fydd yn bresennol a beth yw ei statws (er enghraifft, os yw'n gyfreithiwr, neu'n gynghorydd). Mater i ddisgresiwn y Pwyllgor fydd penderfynu a fydd y person yng nghwmni Aelod yn gallu gwneud sylwadau yn y cyfarfod – os yw'r Pwyllgor yn cytuno, mae'r rheolau yn y weithdrefn yn gymwys i'r person hwnnw hefyd.

28. Mae'r weithdrefn yn nodi'r drefn arferol ar gyfer sesiwn ond, gan fod pob cwyn yn wahanol, mae gan y Pwyllgor y disgresiwn i gytuno ar

y ffordd y cynhelir pob cam sylwadau. Rhoddir gwybod i'r Aelodau ymlaen llaw sut y mae'r Pwyllgor yn bwriadu ymdrin â’r cyfarfod. Yn nodweddiadol, cynhelir sesiwn fel a ganlyn:

- sylwadau'r Aelod i'r Pwyllgor ar adroddiad y Comisiynydd;
- cwestiynau gan y Pwyllgor yn deillio o adroddiad y Comisiynydd a/neu sylwadau'r Aelod;
- sylwadau cloi’r Aelod (os oes rhai) yn sgil cwestiynau’r Pwyllgor;
- yr Aelod (a’r cynrychiolydd) yn gadael er mwyn i’r Pwyllgor drafod yn breifat.

29. Os bydd mater yn cael ei godi yn ystod y cam sylwadau a bod Pwyllgor o’r farn bod angen i’r Comisiynydd ystyried y mater hwn ymhellach, caiff y Pwyllgor ei gyfeirio’n ôl at y Comisiynydd. Gall hyn arwain at y Comisiynydd yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor, ond ni fydd yn newid adroddiad y Comisiynydd, fel arfer. Yn lle hynny, caiff y wybodaeth ei nodi yn adroddiad y Pwyllgor.

30. Os gwneir sylwadau gan Aelod mewn perthynas â’r Comisiynydd neu unigolyn arall, bydd y Pwyllgor yn rhoi’r hawl i’r person hwnnw, pan fo’n briodol er tegwch, i ymateb i’r sylwadau hyn. Caiff y Pwyllgor gyhoeddi ymatebion o’r fath pan wnaed cais am hynny, ond bydd hyn yn ôl disgresiwn y Pwyllgor sy’n trafod yr amgylchiadau perthnasol. O gofio rôl y Comisiynydd yn y broses, y disgwyliad yw y byddai'r Pwyllgor, fel arfer, yn cyhoeddi ymateb o'r fath gan y Comisiynydd air am air.

### *Cam penderfyniad*

31. Wedi casglu unrhyw wybodaeth berthnasol, bydd y Pwyllgor yn symud i’r cam nesaf, sef gwneud penderfyniad ar adroddiad y Comisiynydd. Y penderfyniad cyntaf y bydd y Pwyllgor yn ei wneud yw

a yw’n cytuno ag argymhelliad y Comisiynydd. Mae angen penderfyniad mwyafrif yn hyn o beth.

32. Os mai’r penderfyniad yw na thorrwyd y Cod Ymddygiad, bydd y Pwyllgor yn gwneud cynnig i lunio adroddiad.

Adroddiad i’r Senedd – heb ganfod achos o dorri’r Cod

33. Mae paragraffau 8.18 i 8.21 yn nodi gofynion adrodd y Pwyllgor i’r Senedd os na chanfyddir bod y Cod wedi’i dorri.

34. Yn yr achos hwn, mae’n rhaid i’r Pwyllgor osod ei adroddiad ef ac adroddiad y Comisiynydd gerbron y Senedd. Bydd yr adroddiad yn ddienw, oni bai bod yr Aelod dan sylw am gael ei enwi yn yr adroddiad. Os digwydd hynny, bydd unrhyw wybodaeth bersonol arall yn ddienw. Cyn i'r adroddiad gael ei osod, mae’n rhaid ei rannu'n gyfrinachol â'r Aelod dan sylw a'r achwynydd. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cymryd pob cam rhesymol ymarferol i hysbysu unigolion a enwir yn yr adroddiad ei fod wedi’i gyhoeddi – bydd hyn yn dibynnu ar ffactorau megis a oes gan y Pwyllgor fanylion cyswllt unigolion o’r fath.

Adroddiad i’r Senedd – achos o dorri’r Cod wedi’i ganfod

35. Yr opsiynau a’r cosbau sydd ar gael i’r Pwyllgor os bydd yn penderfynu bod Aelod wedi torri’r Cod:

- y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac na ddylid cymryd rhagor o gamau;
- y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid “ceryddu” yr Aelod yn unol â'r Rheolau Sefydlog;

- y canfuwyd y torrwyd y Cod ac y dylid gwahardd yr Aelod o drafodion y Senedd[4] naill ai'n gyffredinol neu'n benodol - er enghraifft, o drafodion cyfarfodydd penodol y Senedd neu ei phwyllgorau - am gyfnod penodol i'w bennu yn y cynnig ar gyfer gwahardd, yn unol â'r Rheolau Sefydlog[5];
- y canfuwyd y torrwyd y Cod ac y dylai hawliadu a breintiau penodol aelodaeth o'r Senedd gael eu tynnu yn ôl oddi ar yr Aelod dan sylw; neu
- pan fernir bod hynny'n briodol, caniateir cymhwyso unrhyw gyfuniad o'r cosbau uchod.

36. Bydd hawliau a breintiau aelodaeth o'r Senedd y caiff Pwyllgor argymell y dylid eu tynnu yn ôl yn cael eu pennu yn adroddiad y Pwyllgor i'r Senedd, a gall hyn gynnwys:

- tynnu yn ôl hawl mynediad fel Aelod i ystâd y Senedd;

- gwaharddiad o weithgareddau eraill y byddai gan yr Aelod hawl i fynd iddynt fel arfer;

- tynnu breintiau cynrychioliadol a seremonïol a breintiau cysylltiedig oddi ar Aelod a fyddai ganddo fel Aelod fel arfer;

37. Wrth benderfynu pa gosb(au) i'w hargymell i'r Senedd, bydd y Pwyllgor yn gwneud penderfyniad ar sail amgylchiadau penodol yr achos dan sylw. Bydd yn trafod:

- difrifoldeb yr achos o dorri'r Cod;

---

[4] Caiff "trafodion y Senedd" eu diffinio yn adran 1(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel "any proceedings of the Senedd, committees of the Senedd or sub-committees of such committees".

[5] Mewn achos o argymhelliad i wahardd, yn unol a'r Rheolau Sefydlog, bydd hyn yn arwain yn awtomatig at dynnu cyflog yr Aelod yn ôl am gyfnod y gwaharddiad, ond ni fydd yn arwain at dynnu lwfansau eraill yn ôl a ddarperir dan y Penderfyniad ar Gyflog a Lwfansau'r Aelodau. Ni fydd hyn yn effeithio ar gyflog a lwfansau staff a gyflogir gan yr Aelod dan sylw.

- i ba raddau y gall fod wedi dwyn anfri ar y Senedd;
- a yw'r achos dan sylw yn ail drosedd, neu'n dangos ymddygiad cyson y gellir ystyried ei fod yn dangos dirmyg tuag at gyd-Aelodau o'r Senedd, y rheolau neu'r sefydliad;
- a wnaed ymddiheuriad.

38. Bydd y Pwyllgor hefyd yn rhoi sylw i'r bwriad, h.y. a fernir y torrwyd y Cod yn fwriadol ai peidio, ac a oes achos o anonestrwydd neu dwyll ynghlwm wrtho.

39. Hefyd, caiff y Pwyllgor roi sylw i'r graddau y mae'r Aelod wedi cydweithredu â'r Comisiynydd yn ystod yr ymchwiliad i'r gŵyn

40. Cyn i'r adroddiad gael ei osod, mae angen ei rannu'n gyfrinachol â'r Aelod dan sylw a'r achwynydd. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cymryd pob cam rhesymol ymarferol i hysbysu unigolion a enwir yn yr adroddiad ei fod wedi'i gyhoeddi – bydd hyn yn dibynnu ar ffactorau megis a oes gan y Pwyllgor fanylion cyswllt unigolion o'r fath.

41. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad ef ac adroddiad y Comisiynydd (drwy broses o'r enw gosod). Mae dogfennau a osodir gerbron y Senedd i'w gweld yma. Hefyd, mae'n rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno cynnig i'r Senedd gymeradwyo adroddiadau os canfyddir y torrwyd y Cod – mae hyn yn golygu y bydd yr adroddiad yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn gyda'r holl Aelodau'n gallu pleidleisio ar yr adroddiad. Mae dadleuon o'r fath yn rhoi cyfle i'r Aelod sy'n destun cwyn siarad yn gyhoeddus am y gŵyn a chanfyddiad y Pwyllgor. Hefyd, bydd y Pwyllgor yn cymryd pob cam rhesymol ymarferol i roi gwybod i'r achwynydd a'r Aelod am ddyddiad ac amser y Cyfarfod Llawn hwnnw.

## 43. Beth sy'n digwydd i'ch data?

44. Mae'r weithdrefn yn nodi sut y bydd y Comisiynydd a'r Pwyllgor yn prosesu eich data personol. Mae'r hysbysiadau preifatrwydd perthnasol ar gael yma:

- hysbysiad preifatrwydd y Comisiynydd
- hysbysiad preifatrwydd y Pwyllgor

45. Ni chaiff adroddiad y Comisiynydd gynnwys gwybodaeth y mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod yn ddata personol, neu a all achosi niwed neu drallod os caiff ei chyhoeddi. Y Comisiynydd sy'n gwneud y penderfyniad ar y cam hwn o ran y wybodaeth a roddir i'r Pwyllgor, ond caiff y Pwyllgor wneud penderfyniad arall, ar ôl cwblhau ei waith, ynghylch pa wybodaeth y dylid ei chyhoeddi.

46. Caiff y Pwyllgor benderfynu ddileu gwybodaeth bersonol (ei golygu) o adroddiad y Comisiynydd neu grynhoi canfyddiadau adroddiad y Comisiynydd. Gwneir hyn yn unol â hysbysiad preifatrwydd y Pwyllgor, neu os yw'r Pwyllgor o'r farn y gallai cyhoeddi'r adroddiad llawn achosi niwed neu drallod i unrhyw un o'r rhai dan sylw. Os oes gennych bryderon ynghylch gwybodaeth a all gael ei chyhoeddi yn adroddiad y Pwyllgor, dylech eu codi gyda'r Pwyllgor.